Miya-Jima

Cri'r gwylanod a'r gwynt o'r de
A'r heulwen cynnes yn goleuo'r lle
Mae'r llong yn disgwyl, barod am y gadael.
Pob math o bobol ar fwrdd y bad
Milwyr ifanc a phlant dan dra'd
Ambell i bererin; a 'dwy i'n bererin?
Ti a fi yn teimlo bellach
Fel 'se breuddwyd wedi dod yn wir.
Ti a fi yn gwenu'n wirion
Wrth agosáu at y tir
Ti a fi yn teimlo, awel fwyn o'r môr
Wrth groesi'r dwr at Miya-Jima.

Mae'r ynys yma yn baradwys pur
Gem werdd ddisglair yn y dyfroedd clir
Coed yn'u blodau, ceirios yn'u blodau.
Man cysegredig ers canrifoedd maeth
Gwêl y glwyd goch yno ar y traeth
O flaen y deml, teml ar ôl teml.
Petalau gwyn *sakura*
Fel eira ar dy wallt
Dagrau pur bob coeden
Yn gorwedd yno'n hallt
Ti a fi'n sylweddoli beth yw ystyr hyn
Wrth groesi'r dwr at Miya-Jima.

Ges i' magu yn y rhyfel oer
Pedair munud gen i' gyfri'r lloer
Cyn bo nhw'n diflannu, cyn i bawb ddiflannu.
Byth yn credu se'n i'n cyrra'dd yma
I gerdded strydoedd Hiroshima.
Ger yr afon, parc ar lan yr afon.
Ti a fi yn sylweddoli
Pa mor ffodus fu' ni'n dau
Ti a fi dan deimlad yno
Er nad arno' ni oedd y bai
Ti a fi yn cydio llaw
Wrth gerdded ar y cei
Ar ôl croesi'r dwr at Miya-Jima.

© Geraint Griffiths 2005